
Cronfa Gyfunol Cymru
Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau

1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020

RHAGAIR

Cefndir

1. Sefydlwyd Cronfa Gyfunol Cymru (y Gronfa) ar 1 Ebrill 2007 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y Ddeddf). Darparodd y Ddeddf wahaniad cyfreithiol ffurfiol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru a chreu corff newydd sef Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Gronfa'n dal y cronfeydd ar gyfer y canlynol:

- Llywodraeth Cymru;
- Comisiwn y Senedd*;
- Swyddfa Archwilio Cymru;
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

*O dan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yw Senedd Cymru, neu'r Senedd. Felly, newidiodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei enw i Gomisiwn y Senedd ar 6 Mai 2020.

2. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn awdurdodi taliadau allan o'r Gronfa. Mae pob un o'r pedwar corff a restrir uchod yn gallu tynnu cronfeydd i lawr o'r Gronfa, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â Chynnig Cyllidebol a gymeradwywyd. Y cyfanswm a awdurdodwyd gan y Cynnig Cyllidebol ar gyfer ei dynnu i lawr o'r Gronfa ar gyfer 2019-20 oedd £17,379,905,000 (2018-19 oedd £16,376,559,000).

Cwmpas y Cyfrif

3. Mae'r Cyfrif hwn wedi'i baratoi o dan Adran 132(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrif yn dangos taliadau i mewn i'r Gronfa ac allan ohoni ac yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi, o dan y Ddeddf honno.
4. Mae'r Gronfa'n cael symiau gan Swyddfa Cymru y mae Senedd y DU wedi pleidleisio drostynt. Mae derbyniadau a dderbynnir gan y cyrff uchod nad awdurdodir eu defnyddio i gefnogi eu gwariant hefyd, yn rhinwedd Adran 120(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn daladwy i'r Gronfa.
5. O dan bwerau datganoledig o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a 2017), rhoddwyd awdurdod i Senedd Cymru bennu Cyfradd Treth Incwm Cymru (CTIC) o 2019-20 ymlaen. Mae treth incwm yn parhau i gael ei gweinyddu gan Gyllid a Thollau EM, ond dyrennir refeniw treth incwm o gyfraddau Cymru i Lywodraeth Cymru. Caiff y trawsdaliad o Gyfradd Treth Incwm Cymru ei dynnu i lawr o Lywodraeth y DU drwy Swyddfa Cymru a'i dalu i Gronfa Gyfunol Cymru.
6. O dan bwerau datganoledig o Ddeddf Cymru 2014, mae trethi datganoledig mewn perthynas â'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi'u rheoli yng Nghymru o 2018-19 ymlaen. Sefydlwyd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) gan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 i weinyddu a chasglu'r ddwy dreth. Mae'r trethi a gesglir gan ACC yn cael eu talu i mewn i'r Gronfa o dan Adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

7. Mae cyfrif y Datganiad am Drethi Datganoledig yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi ar wahân a gellir ei weld yn <https://llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-cyfrifon-blynyddol-2019-2020> .
8. Mae adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a 2017) yn rhoi pwerau benthycu uwch i Weinidogion Cymru, gydag unrhyw symiau sy'n cael eu benthycu a'u had-dalu (gan gynnwys llog) i'w talu i mewn i'r Gronfa ac allan ohoni. Benthycwyd y symiau cyntaf yn 2018-19, ac ni chafwyd benthycu newydd yn 2019-20.
9. Gwneir taliadau allan o'r Gronfa os ydynt wedi'u codi ar y Gronfa trwy unrhyw ddeddfiad, neu os ydynt wedi'u hawdurdodi gan Gynnig Cyllidebol a basiwyd yn y Senedd. Caniateir pasio Cynigion Cyllidebol mewn perthynas â phersonau perthnasol, sef y rhai a grybwyllir ym mharagraff 1 uchod. Rhaid cael cymeradwyaeth i dynnu cronfeydd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adrannau 124 a 129 o'r Ddeddf.
10. Mae'r cyrff hynny sy'n tynnu cyllid i lawr o'r Gronfa'n darparu cyfrifon blynyddol yn adrodd ar eu stiwardiaeth ar y cronfeydd hynny.

Derbyniadau a Thaliadau Cronfa Gyfunol Cymru

11. Dengys y cyfrifon hyn y trafodiadau sy'n ymwneud â'r dibenion statudol a nodir uchod. Roedd y Gronfa wedi dwyn ymlaen falans o £46,000 ar 31 Mawrth 2019, gyda chyfanswm derbyniadau o £17,052,818,000 yn cael eu talu i mewn a thaliadau o £17,049,384,000 yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn, gan adael y Gronfa gyda balans cau o £3,480,000 ar 31 Mawrth 2020. Yn ystod 2018-19 talwyd cyfanswm o £16,249,878,000 o dderbyniadau i mewn i'r Gronfa, gyda £16,249,841,000 o daliadau o'r Gronfa.

Archwiliad

12. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Gronfa'n gwybod am yr wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gronfa'n ymwybodol ohoni.
13. Mae'r Cyfrif yn cael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 132 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R PRIF SWYDDOG CYFRIFYDDU

1. Mae Adran 132(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrif o'r taliadau i mewn i'r Gronfa ac allan ohoni. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail arian parod a rhaid iddynt gyflwyno trafodiadau'r Gronfa yn briodol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020. Mae adran 132(5) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi ardystiedig o'r cyfrif gerbron Senedd Cymru.
2. Nodir cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano, a thros gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
17 Rhagfyr 2020

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cwmpas y Cyfrifoldeb

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli i safon uchel o uniondeb. Rwyf yn gyfrifol am sicrhau system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r ffordd y caiff Cronfa Gyfunol Cymru (y Gronfa) ei rheoli, gan ddiogelu ar yr un pryd y cronfeydd cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt ac sy'n cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg.

Bwriedir i'r system rheolaeth fewnol reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethiant er mwyn cyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei ddarparu yn hytrach na sicrwydd absoliwt. Seilir y system rheolaeth fewnol ar broses barhaus y bwriedir iddi: nodi a blaenoriaethu'r risgiau i weithrediad effeithiol y Gronfa; gwerthuso pa mor debygol ydyw y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'r effaith os cânt eu gwireddu; a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EM.

Y Fframwaith Risg a Rheolaeth

Mae gweithrediad y Gronfa yn cael ei lywodraethu gan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Cymru 2014 a 2017, a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 sy'n nodi'r amodau ar gyfer taliadau i'w gwneud allan o'r Gronfa a symiau i'w talu i mewn i'r Gronfa. Rhaid i gymeradwyaethau i Weinidogion Cymru dynnu ar y Gronfa gael eu cymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r Gweinidogion yn atebol am y Gronfa, ac mae ceisiadau am dynnu arian allan yn cael eu gwneud ar ran Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, o dan awdurdod cynigion cyllidebol sy'n cael eu pasio gan y Senedd. Llywodraeth Cymru sy'n gweinyddu'r Gronfa, felly mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu a llofnodi cyfrifon y Gronfa.

Dim ond gyda chymeradwyaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru (o dan adrannau 124 a 129) y gall Llywodraeth Cymru dynnu cronfeydd a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gymeradwyo cais i dynnu os yw'r cais yn ymwneud â swm dilys a godir ar y Gronfa gan unrhyw ddeddfiad (tâl uniongyrchol) neu os yw'r swm y gofynnir amdano wedi'i awdurdodi neu os bernir ei fod wedi'i awdurdodi gan gynnig cyllidebol y Senedd at ddibenion talu gwariant Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Ombwdsmon. Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd roi cymeradwyaeth i dynnu mewn perthynas â swm sydd wedi'i dalu i mewn i'r Gronfa trwy gamgymeriad.

Cyn y gellir rhyddhau unrhyw arian o'r Gronfa, rhaid i'r Gweinidogion ofyn am gymeradwyaeth i dynnu, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi'r gymeradwyaeth honno. Mae adran 129 yn caniatáu i Weinidogion ac i Archwilydd Cyffredinol Cymru gytuno ar ffurf ceisiadau o'r fath. Wrth ganiatáu cymeradwyaeth o'r fath i dynnu arian, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol ond yn cadarnhau a yw'r awdurdod statudol yn bodoli i wneud taliadau o'r fath. Nid yw'r gwiriad yn gyfystyr â rhagarchwiliad o'r swm y gofynnir amdano.

Mae gweithrediad y Gronfa'n dibynnu ar systemau rheolaeth ariannol craidd Llywodraeth Cymru i gyflawni ei swyddogaethau cyfrifyddu a thalu ar ran Gweinidogion Cymru, a thrwy hynny, ar y rheolaethau sydd ar waith o amgylch y systemau hynny. Er mwyn adolygu'r amgylchedd rheoli rwyf

yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Gyfarwyddwyr yn Llywodraeth Cymru gwblhau holiadur blynyddol am reolaeth fewnol.

Mae'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol hefyd yn rhoi Datganiad o Sicrwydd i mi yn flynyddol i roi eu hasesiad o effeithiolrwydd fframweithiau rheolaeth fewnol eu Grwpiau. Rwyf wedi cael sicrwydd boddhaol, yn bennaf gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Moeseg a'r Cyfarwyddwr Cyllid, mewn perthynas â gweithredu'r systemau a'r gwasanaethau corfforaethol a chyllid canolog y mae gweithredu'r Gronfa'n dibynnu arnynt.

Nodir dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran rheoli risg yn ei Pholisi Rheoli Risg a dogfennau cyfarwyddyd cysylltiedig. Mae risgiau'n cael eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli ar wahanol lefelau o fewn y sefydliad. Dechreuwyd prosiect gwella i adolygu ac adnewyddu fframwaith rheoli risg Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys diweddariad o'r Polisi Rheoli Risg a'r Safonau Gofynnol sydd wedi'u diweddarau i ymgorffori Egwyddorion Gorfodol Llyfr Oren Trysorlys ei Mawrhydi ym mholisi Llywodraeth Cymru a chyflwyno Datganiad newydd am barodrwydd i dderbyn risg, y mae'r ddau ohonynt wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd. Mae gwaith i gyhoeddi a lledaenu dogfennau newydd a chyflwyno'r polisi newydd i dimau rheoli wedi'i ddal yn ôl yn sgil effaith COVID-19 a bydd yn aildechrau yn ddiweddarach yn 2020-21.

Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu polisi a phroses ar gyfer rheoli risg ac am oruchwylio a chraffu ar fesurau lliniaru'r risgiau allweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a allai fel arall atal neu lesteirio'r sefydliad rhag cyflawni ei amcanion strategol. Mae Pwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn perthynas â risgiau ar lefel gorfforaethol gan gynnwys asesu, gwerthuso, cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, perchnogaeth gorfforaethol a lliniaru. Mae'r Pwyllgor Gweithredol hefyd yn gyfrifol am bennu a chymeradwyo'r fframwaith rheoli risg corfforaethol. Is-bwyllgor Cyllid y Pwyllgor Gweithredol sy'n gyfrifol am adolygu unrhyw risgiau sydd i'w codi i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Nid oes unrhyw risgiau o ran rheolaeth Cronfa Gyfunol Cymru wedi'u codi i'r Gofrestr.

Adolygwyd y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol ddwywaith yn ystod y flwyddyn ariannol gan y Bwrdd. Cyfrifoldeb rheoli yw rheoli a lliniaru risg o ddydd i ddydd ac mae pob Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi bod yn gyfrifol am reoli risg. Cafodd risgiau grŵp eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch dimau rheoli a chan Bwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg y Grŵp, ac fe gawsant eu llywio gan gofrestri risg a gynhelir gan brosiectau a rhaglenni, asesiadau risg a chofrestri risg ar lefel is-adrannol.

Mewn cysylltiad â'r cyrff eraill a gyllidir drwy'r Gronfa, ac ACC am dalu derbyniadau trethu i'r Gronfa, rwyf yn dibynnu ar eu Swyddogion Cyfrifyddu i gadw systemau effeithiol o reolaeth fewnol ac i sicrhau bod capasiti i reoli risg mewn ffordd briodol a chymesur o fewn eu sefydliadau.

Llywodraethu Gwybodaeth

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gofynnol gorfodol i amddiffyn gwybodaeth yn Adrannau'r Llywodraeth sy'n ei gwneud yn ofynnol imi asesu ein risg a sicrhau bod strategaethau lliniaru priodol yn eu lle. Mae gan Lywodraeth Cymru bolisiau a gweithdrefnau ar waith i reoli risg seiberddiogelwch mewn modd rhagweithiol, gan weithio gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i sicrhau asedau digidol a seilwaith TGCh.

Rwy'n cael fy sicrhau gan Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru ynghylch y cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud mewn perthynas â chydymffurfio â GDPR. Mae'r Swyddog Diogelu Data wedi nodi bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran cydymffurfio â GDPR er gwaetha'r ffaith bod pandemig COVID-19 wedi tarfu ar bethau tua diwedd 2019-20. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau data yn gofyn

am adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â stiwardiaeth Llywodraeth Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru yn 2019-20. Rhoddodd adolygiad a gynhaliwyd gan y gwasanaeth Archwiliad Mewnol ar ran y Swyddog Diogelu Data "sicrwydd rhesymol" ar gydymffurfiaeth.

Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC)

Roedd Deddf Cymru 2014 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer datganoli rhagor o bwerau i'r Senedd ac i Lywodraeth Cymru. Mae'r pwerau hyn yn rhoi arfau pellach i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyflwyno cyfradd treth incwm Cymru yn 2019-20, er mwyn tyfu economi Cymru ac amrywio lefel y dreth a'r gwariant yng Nghymru, gan felly gynyddu ei atebolrwydd i bobl Cymru.

Mae'r Fframwaith Cyllidol¹ yn nodi sut y bydd CTIC yn gweithio yn seiliedig ar amcangyfrifon y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn a chysoniad 15 mis ar ôl diwedd y flwyddyn i'r symiau gwirioneddol a gesglir, a sut mae'n rhyngweithio â setliad y Grant Bloc.

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am gasglu Treth Incwm yng Nghymru a'i hanfon i Gronfa Gyfunol y DU. Addasir Grant Bloc Cymru ar gyfer CTIC yn seiliedig ar ragolygon yr hydref y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol drwy'r broses Prif Amcangyfrifon. Cynhelir ymarfer cysoni 15 mis ar ôl diwedd y flwyddyn i'r symiau gwirioneddol a gesglir, a gellid gwneud addasiad pellach i'r broses grant bloc yn y dyfodol. Caiff y 'trawsdaliad' o amcangyfrif CTIC ei wneud drwy Swyddfa Cymru, ac mae'r trawsdaliad yn digwydd ochr yn ochr â'r broses grant bloc arferol ac fe'i dderbynnir i Gronfa Gyfunol Cymru.

Er mwyn sicrhau eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau, mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth² yn ei le rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer sefydlu a gweithredu'r CTIC. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth³ hefyd ar waith sy'n nodi egwyddorion y trefniadau rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol CTIC, sy'n atebol i Brif Swyddog Cyfrifyddu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Wrth weithredu'r CTIC, sefydlwyd bwrdd prosiect traws-lywodraeth fel y prif drefniant llywodraethu. Roedd y bwrdd prosiect yn cynnwys swyddogion o Drysorlys Cymru, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Daeth y prosiect i ben ddechrau 2020, ond disodlodd Bwrdd Cyfraddau Treth Incwm Cymru y strwythur llywodraethu hwnnw er mwyn goruchwyllo'r broses busnes fel arfer o gyflawni'r CTIC. Mae swyddogion Trysorlys Cymru yn parhau i fod yn aelodau o'r Bwrdd hwn i gynrychioli buddiannau Llywodraeth Cymru.

Caiff trawsdaliad CTIC o Swyddfa Cymru ei gysoni â chyfrifon statudol Swyddfa Cymru gan roi sicrwydd i mi ynghylch cyflawnrwydd, cywirdeb, dilysrwydd a phrydlondeb y trawsdaliad o dreth incwm yng Nghymru i Gronfa Gyfunol Cymru.

Sicrwydd

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r Gronfa.

Mewn perthynas â Llywodraeth Cymru, rwy'n derbyn sicrwydd gan ystod eang o ddarparwyr sicrwydd, sy'n gyfrifol am weithredu rheolaethau allweddol. Rwyf yn cael fy hysbysu yn bennaf drwy

¹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/cytundeb-ar-fframwaith-cyllidol-llywodraeth-cymru.pdf>

² <https://llyw.cymru/cytundeb-lefel-gwasanaeth-gyda-cthem>

³ <https://llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-ar-gyfer-cyfradd-treth-incwm-cymru>

waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r swyddogion hynny o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Rwyf hefyd yn derbyn sicrwydd gan ymatebion rheoli ar faterion a nodwyd gan yr Archwilydd Allanol (Archwilydd Cyffredinol Cymru) yn ei adroddiadau amrywiol ar weithrediadau a gweithgareddau Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi cael fy nghyngori ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Mae gan Lywodraeth Cymru Wasanaeth Archwilio Mewnol sy'n gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Cynhaliodd raglen lawn o waith yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar y cynnydd o ran rhoi'r cynllun archwilio hwn ar waith ac roeddwn yn cyfarfod â hi yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i drafod gweithgarwch archwilio a materion penodol ym maes rheolaeth fewnol. Yn ei Hadroddiad Sicrwydd Blynyddol, rhoddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol "sicrwydd rhesymol" imi ar weithrediad y fframwaith llywodraethu, rheolaeth a rheoli risg.

Mewn cysylltiad â'r cyrff eraill a gyllidir drwy'r Gronfa, ac ACC am daliadau derbyniadau trethu i'r Gronfa, rwyf yn dibynnu ar eu Swyddogion Cyfrifyddu i gynnal eu hadolygiad eu hunain o effeithiolrwydd rheolaeth eu sefydliadau eu hunain, gyda chymorth yr ystod o sicrwydd sydd ar gael iddynt, ac rwyf wedi ceisio cadarnhad ysgrifenedig bod ganddynt sicrwydd digonol o ran effeithiolrwydd eu systemau eu hunain o lywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol mewn cysylltiad â materion sy'n effeithio ar weithrediad y Gronfa.

Mae pob Swyddog Cyfrifyddu wedi cadarnhau bod ganddynt sicrwydd digonol mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar weithrediad y Gronfa.

Cadarnhaodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod system rheolaeth fewnol yn gweithredu yn ystod 2019-20 i sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r arian y gofynnwyd iddo gael ei dynnu i lawr yn fisol gan y Gronfa a bod y rhain yn cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru fel rhan o'u harchwiliad o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ym mis Mai 2020. Nodaf fod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

Mewn perthynas ag Awdurdod Cyllid Cymru, mae gennyf gytundeb Swyddog Cyfrifyddu yn ei le gyda Phrif Weithredwr ACC yn nodi'r cyfrifoldebau mewn perthynas ag ACC, a'r Datganiad Trethi Datganoledig.

Sylwaf o'r sicrwydd a roddwyd gan Brif Weithredwr ACC fod y datganiad treth ar gyfer 2019-20, a osodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn dangos y symiau y gellid eu derbyn o gasglu trethi, cosbau ac incwm arall, unrhyw ddiidyniadau a ganiateir, a symiau a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru yn unol ag adran 25 o'r Ddeddf Rheoli Casglu Trethi. Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn archwilio ddiamod ar y datganiad treth ac mae hyn yn rhoi sicrwydd i mi fod y system rheolaeth fewnol ar gyfer casglu a thalu derbyniadau'r Dreth Ddatganoledig yn effeithiol yn ystod cyfnod cyfrifyddu 2019-20.

Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi rhoi sicrwydd penodol yn ymwneud â phrosesau'r gyflogres a weithredir gan Gomisiwn y Senedd a sicrwydd mewn perthynas â chyflawnder, cywirdeb a dilysrwydd y ffigurau yn y cyfrifon fel Taliadau Uniongyrchol yn erbyn y Gronfa. System ariannol fwyaf perthnasol Comisiwn y Senedd yw'r system gyflogres ac mae'n destun archwiliad mewnol bob 3 i 4 blynedd. Cafodd yr archwiliad mewnol diweddaraf o gyflogres Comisiwn y Senedd ei gynnal yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ym mis Ionawr 2019. Cofnodwyd casgliad o 'Sicrwydd Cymedrol'. Mae gwariant y gyflogres hefyd yn destun profion blynyddol sylweddol gan

Archwilio Cymru, fel rhan o'i archwiliad allanol blynyddol o ddatganiadau ariannol y Comisiwn. Nid yw Archwiliad Cymru wedi tynnu sylw at unrhyw faterion ar y gyflogres yn ystod 2019-20.

Ystyriwyd rheoleidd-dra trafodion y Comisiwn hefyd fel rhan o'r archwiliad allanol o ddatganiadau ariannol y Comisiwn. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru farn archwilio ddiamed ar ddatganiadau ariannol y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

Gofynnodd Comisiwn y Senedd am sicrwydd penodol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â threuliau Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Mae'r Comisiwn wedi prosesu nifer o geisiadau teithio a chynhaliaeth ar gyfer y Cadeirydd, ond mae'r brif ddogfennaeth a gwybodaeth ategol yn cael eu cadw gan adran gyllid Swyddfa Archwilio Cymru. Wrth ymateb i'r cais hwn rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru sicrwydd i Gomisiwn y Senedd bod rheolaethau priodol wedi bod ar waith yn Swyddfa Archwilio Cymru (yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020) i sicrhau cywirdeb, dilysrwydd a phrydlondeb hawliadau a wnaed gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru.

Gofynnodd Comisiwn y Senedd hefyd am sicrwydd penodol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru nad oes unrhyw hawliadau am deithio a chynhaliaeth wedi'u hysgwyddo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn, y dylid bod wedi'u codi ar y Gronfa, gan nad oedd y Comisiwn wedi derbyn unrhyw hawliadau o'r fath. Wrth ymateb i'r cais hwn rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru sicrwydd i Gomisiwn y Senedd na chafwyd unrhyw hawliadau o'r fath yn rhinwedd ei swydd fel Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

Mae Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi sicrwydd i mi fod system gadarn o reolaeth fewnol wedi gweithredu yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 mewn perthynas â thynnu o'r Gronfa ac ildio iddi. Sylwaf fod archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi barn ddiamed ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

Yn rhinwedd ei swydd fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae hefyd wedi rhoi sicrwydd i mi fod system gadarn o reolaeth fewnol wedi gweithredu dros gymeradwyo ceisiadau Gweinidogion Cymru i dynnu o'r Gronfa.

Ar sail fy adolygiad o reolaethau mewnol o fewn Llywodraeth Cymru a'r sicrwydd rwyf wedi'i gael gan gyrff eraill a gyllidir drwy'r Gronfa, rwyf yn fodlon bod fframwaith llywodraethu cadarn a rheolaethau priodol yn eu lle yn ystod y flwyddyn ar gyfer gweinyddu'r Gronfa yn effeithiol, a mi, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, oedd bersonol gyfrifol am y Gronfa honno. Mae'r materion llywodraethiant a rheolaeth hyn yn cydymffurfio â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru Trysorlys Ei Mawrhydi.

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
17 Rhagfyr 2020

Y Dystysgrif ac adroddiad yr archwilydd annibynnol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd.

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Gyfunol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfrif derbyniadau a thaliadau a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail arian parod o dan adran 132 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno balansau, derbynebaw a thaliadau Cronfa Gyfunol Cymru yn briodol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020; a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag adran 132 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd odani.

Sail ar gyfer barn

Cynhaliiais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r safonau rhyngwladol ar archwilio yn y DU (ISAs (DU)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys safon foesegol y Cyngor adrodd ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Gwybodaeth arall

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn y cyfrif. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd yn y cyfrifon heblaw am y cyfrifon ariannol ac fy adroddiad archwilio sydd ynddo. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn glir fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw gasgliad o sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall i ganfod anghysonderau o bwys â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd, i bob golwg, yn faterol anghywir yn seiliedig ar yr wybodaeth a gaffaelwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n anghyson iawn â hi. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau materol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol:

- bod y symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â'r awdurdodau a nodir yn adrannau 124 neu 130 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
- arian y mae'n ofynnol ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru wedi'i dalu i mewn i'r gronfa honno; a
- mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y datganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol. Gan nad yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau sydd wedi'u cyhoeddi yn nodi cynnwys a ffurf y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ni allaf gadarnhau a yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi'n briodol; a
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Rhagair ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Rhagair wedi'i baratoi yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r dychweliadau cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

Fel yr esbonir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau Trysorlys ei Mawrhydi a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno ac am y cyfryw reolaeth fewnol y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad materol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad materol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad Archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn faterol os, yn unigol neu yn y cyfanred, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fi sy'n gyfrifol am fynegi barn ynghylch a yw'r derbyniadau a'r taliadau wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Rwyf hefyd yn gyfrifol am fynegi barn ynghylch a oedd y symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â'r awdurdodau a nodir yn adrannau 124 neu 130 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a'r arian y mae'n ofynnol ei dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru wedi'i thalu i mewn i'r Gronfa honno.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y Cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant ei drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw y fersiwn hwn . Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
17 Rhagfyr 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

CYFRIF DERBYNIADAU A THALIADAU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2020

		2019-20	2018-19
<u>Derbyniadau</u>	Nodyn	£000	£000
Derbyniadau o Swyddfa Cymru o dan Adran 118(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006		13,278,546	14,582,040
Derbyniadau Ardrethi Annomestig	2	103,408	99,776
Benthyca gan Weinidogion Cymru	4	-	65,000
Dosbarthiad CThEM o'r Gronfa Yswiriant Gwladol mewn cysylltiad â Nawdd Cymdeithasol	5	1,290,129	1,234,859
Cyfradd Treth Incwm Cymru	6	2,059,000	-
Derbyniadau Trethi Datganoledig	7	274,000	250,750
Derbyniadau Etholiadau'r Cynulliad	11	49	-
Derbyniadau eraill	8	47,686	17,453
Cyfanswm Derbyniadau		17,052,818	16,249,878
<u>Taliadau</u>			
Symiau a awdurdodwyd o dan Gynigion Cyllidebol y Cynulliad	9	16,966,746	16,168,641
Taliadau Uniongyrchol:			
Cyflogau, costau cysylltiedig a phensiynau	10	761	742
Treuliau swyddogion canlyniadau yn etholiadau'r Cynulliad	11	595	-
Ad-dalu'r Prifswm a Llog Cronfa'r Benthyciadau Gwladol	3	3,622	1,745
Taliadau Ardrethi Annomestig gan Weinidogion Cymru	2	29,974	61,260
Ildio derbyniadau a ddynodwyd o dan Adran 120(3) o Ddeddf 2006 i'r Ysgrifennydd Gwladol.	8	47,686	17,453
Cyfanswm y Taliadau		17,049,384	16,249,841
(Gostyngiad) / cynnydd Net ym malans y Gronfa		3,434	37
Balans a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill		46	9
Balans a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth		3,480	46

Mae'r nodiadau ar dudalennau 13 -20 yn rhan o'r cyfrif hwn

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
17 Rhagfyr 2020

Nodyn 1

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFYDDU

Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu paratoi ar sail arian parod o dan Adran 132 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ogystal, mae balansau i Lywodraeth Cymru ac oddi wrthi'n cael eu datgelu yn Nodyn 13 i helpu i baratoi Cyfrifon Llywodraeth Gyfan.

Nodyn 2

ARDRETHI ANNOMESTIG

Mae Gweinidogion Cymru yn derbyn ardrethi annomestig sy'n cael eu casglu oddi wrth dalwyr ardrethi gan yr Awdurdodau Bilio neu sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru gan dalwyr ardrethi ar y Rhestr Ganolog Ardrethi. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru aildosbarthu'r cyfraniadau i'r Awdurdodau Derbyn yn gyfrannol i'r boblogaeth oedolion preswyl (18 oed neu drosodd) ym mhob ardal weinyddol (Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol 2019-20 Rhifau 1 a 2, Adran 4.1). Mae'r ardrethi annomestig sy'n dod i law felly'n cael eu cyfuno a'u hailldosbarthu. Mae'r ffordd y mae'r pwll yn gweithredu'n cael ei llywodraethu gan Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a'r rheoliadau a wneir o dan adran 141 o'r Ddeddf honno. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 rhaid i incwm ardrethi annomestig gael ei dalu i mewn i'r Gronfa, ac mae unrhyw wariant ardrethi annomestig cysylltiedig yn dâl uniongyrchol ar y Gronfa.

Gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM, er mwyn osgoi trosglwyddiadau arian parod diangen rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau, caniateir i'r awdurdodau lleol wrthbwysu'r trethi annomestig y maent yn eu casglu yn erbyn yr arian y mae ei angen arnynt, gan ganiatáu ar gyfer gwahaniaethau o un flwyddyn i'r llall wrth benderfynu ar faint o Grant Cynnal Refeniw y mae ei angen mewn unrhyw flwyddyn benodedig. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020 cyfanswm gros y cyfraniadau ardrethi annomestig i'r gronfa oedd £1,031,615,000 (2018-19 £1,000,954,000).

Mae'r taliadau a wnaed trwy'r Gronfa o £29,974,000 (2018-19 £61,260,000) yn daliadau i'r awdurdodau a thalwyr ardrethi'r rhestr ganolog o ganlyniad i ailgyfrifiadau terfynol cyfraniadau ar gyfer 2018-19 a'r blynyddoedd blaenorol ar ôl cael hawliadau archwiliedig yr awdurdodau bilio a gostyngiadau yng ngwerthoedd ardrethol talwyr ardrethi'r rhestr ganolog. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys taliadau gwerth cyfanswm o £2,000 (2018-19 £1,019,000) i gwmpasu taliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2018-19 i dalwyr ardrethi'r rhestr ganolog o ganlyniad i ostyngiadau mewn gwerthoedd ardrethol.

Mae Taliadau i'r Gronfa o £103,408,000 (2018-19 £99,776,000) yn gyfraniadau o dalwyr ardrethi'r rhestr ganolog a derbyniadau ychwanegol o ganlyniad i ailgyfrifiadau terfynol cyfraniadau ar gyfer 2018-19 a'r blynyddoedd blaenorol ar ôl cael hawliadau archwiliedig yr awdurdodau.

Mae gwybodaeth bellach am ardrethi annomestig ar gael yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20 a Chyfrif Ardrethi Annomestig (Cymru) 2019-20.

Nodyn 3

CRONFA'R BENTHYCIADAU GWLADOL

Mae'r balansau hyn yn fenthyciadau o Gronfa'r Benthyciadau Gwladol a gafodd eu benthycu ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Yna cawsant eu trosglwyddo i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig yn y 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) pan ddiddymwyd y Bwrdd ym 1998. Ers i'r WDA gael ei ddiddymu yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu'r prifswm a'r llog. Cafodd taliadau o £1,745,192 eu gwneud gan Lywodraeth Cymru i Swyddfa Cymru yn 2019-20. Gan fod ad-dalu llog a phrifswm i Gronfa'r Benthyciadau Gwladol yn daliad uniongyrchol ar y Gronfa, cafodd Llywodraeth Cymru £1,745,192 gan y Gronfa i ariannu ad-daliadau'r benthyciad (2018-19: £1,745,000).

Caiff ad-daliadau prifsymiau a llog am symiau a fenthycwyd o dan Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Gweler Nodyn 4 am ragor o fanylion) hefyd eu cynnwys. Cyfanswm yr ad-daliadau llog a'r prifswm yn 2019-20 oedd £1,877,066 sy'n daliadau uniongyrchol ar y Gronfa.

Nodyn 4

BENTHYCA GAN WEINIDOGION CYMRU

O dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a 2017) rhoddwyd pwerau benthycu ychwanegol i Weinidogion Cymru o 1 Ionawr 2017. Rhaid i unrhyw symiau sy'n cael eu benthycu a'u had-dalu o dan y darpariaethau hyn gael eu gwneud drwy'r Gronfa a chael eu hadlewyrchu felly yn y cyfrifon hyn. Daeth y symiau cyntaf a gafodd eu benthycu oddi wrth Gronfa'r Benthyciadau Gwladol i law'r Gronfa yn 2018-19.

Dyma grynodeb o'r sefyllfa fenthycu:

	Prifswm £000	Llog sydd wedi cronni £000	Cyfanswm £000
Ar 1 Ebrill 2019	65,000	25	65,025
Benthycu Newydd	-	-	-
Llog a ysgwyddwyd	-	909	909
Ad-daliadau	(1,090)	-	(1,090)
Llog a dalwyd	-	(787)	(787)
Ar 31 Mawrth 2020	63,910	147	64,057

Nodyn 4 parhad

	Prifswm £000	Llog sydd wedi cronni £000	Cyfanswm £000
Ar 1 Ebrill 2018	-	-	-
Benthyca Newydd	65,000	-	65,000
Llog a ysgwyddwyd	-	25	25
Ad-daliadau	-	-	-
Llog a dalwyd	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2019	65,000	25	65,025

Ni wnaed unrhyw ad-daliadau yn 2018/19.

Mae ad-dalu benthyca wedi'i amserlennu fel a ganlyn:

Ar 31 Mawrth 2020	Prifswm £000	Llog £000	Cyfanswm £000
Llai na blwyddyn	2,203	887	3,090
1-5 mlynedd	9,128	3,234	12,362
Mwy na phum mlynedd	52,579	7,678	60,257
Cyfanswm	63,910	11,799	75,709

Nodyn 5

DOSBARTHAD CTHEM O'R GRONFA YSWIRIANT GWLADOL MEWN CYSYLLTIAD Â NAWDD CYMDEITHASOL

Ers 2017-18, mae dosbarthiad CTHEM o'r Gronfa Yswiriant Gwladol mewn cysylltiad â Nawdd Cymdeithasol wedi cael ei dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru. Yn y gorffennol, roedd hwn yn cael ei dalu'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Yn 2019-20 y swm a dalwyd i mewn i'r Gronfa mewn cysylltiad â hyn oedd £1,290,129,000 (2018-19: £1,234,859,000).

Nodyn 6

CYFRADDAU TRETH INCWM CYMRU

Diwygiodd Deddf Cymru 2014 a 2017 ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 o ran treth incwm. Mae Adran 116D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a ddiwygiwyd yn rhoi pŵer i'r Senedd bennu Cyfradd Treth Incwm Cymru (CTIC) ar gyfer trethdalwyr Cymru ar incwm nad yw'n gynilon, nad yw'n ddifidend ym mhob band treth o 6 Ebrill 2019. Bydd y CTIC yn cael ei bennu bob blwyddyn drwy Gynnig a basiwyd gan y Senedd ar sail cynnig a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae CThEM yn parhau i gasglu Treth Incwm yng Nghymru, gan gynnwys CTIC o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru. Telir y symiau a gesglir i Gronfa Gyfunol y DU. Cytunir ar swm CTIC a delir i Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod y flwyddyn gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi ac fe'i cyfrifir ar sail rhagolwg a chysoniad fel y nodir yn y Fframwaith Cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth y DU yn trosglwyddo'r CTIC yn seiliedig ar ragolygon a nodir yn y Prif Amcangyfrifon bob blwyddyn. Gwneir hyn drwy Swyddfa Cymru fel Trawsdaliad CTIC. Felly, daw refeniw CTIC i Gronfa Gyfunol Cymru o Swyddfa Cymru ochr yn ochr â'r broses grant bloc arferol. Mae cysoni'r rhagolwg â refeniw CTIC gwirioneddol yn destun addasiadau i'r grant bloc yn y dyfodol.

Trawsdaliad CTIC ar gyfer 2019-20 i Gronfa Gyfunol Cymru yw £2,059,000,000.

Nodyn 7

TRETHI DATGANOLEDIG

Datganolodd Deddf Cymru 2014 ystod o bwerau ariannol newydd i Senedd Cymru, gan gynnwys pwerau yn ymwneud â threthu. O ganlyniad, darparodd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ar gyfer sefydlu ACC. Ers mis Ebrill 2018, mae ACC wedi casglu a rheoli dwy dreth Gymreig ddatganoledig - sef y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi - ar ran Llywodraeth Cymru. Mae adran 25 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC dalu'r trethi a gesglir i mewn i'r Gronfa.

Yn ystod y flwyddyn 2019-20, talodd ACC £274 miliwn i'r Gronfa mewn perthynas â'r ddwy Dreth Ddatganoledig:

	2019 – 20	2018 – 19
	£000	£000
Treth Gwarediadau Tirlenwi	38,357	34,628
Treth Trafodiadau Tir	235,643	216,122
Cyfanswm Trethi Datganoledig	274,000	250,750

Nodyn 8

DERBYNIADAU ERAILL

Mae **Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Dynodi Derbyniadau) 2007** yn dynodi rhai derbyniadau (derbyniadau dynodedig). O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 rhaid i Weinidogion Cymru dalu i'r Ysgrifennydd Gwladol symiau sy'n gyfartal â symiau'r derbyniadau dynodedig. Mae Adran 120(6) o'r Ddeddf yn darparu bod symiau y mae ar Weinidogion Cymru eu hangen i wneud taliadau o dan y gorchymyn hwn yn cael eu codi ar y Gronfa.

	Derbyniadau a delir i mewn i'r gronfa 2019-20 £000	Derbyniadau a ildwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol 2019-20 £000	Derbyniadau a delir i mewn i'r gronfa 2018-19 £000	Derbyniadau a ildwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol 2018-19 £000
Llywodraeth Cymru	47,686	47,686	17,453	17,453
Cyfanswm y Derbyniadau Dynodedig	47,686	47,686	17,453	17,453
Cyfanswm y Derbyniadau heb eu Dynodi	-	-	-	-
CYFANSWM	47,686	47,686	17,453	17,453

Nodyn 9

SYMIAU A AWDURDODWYD O DAN GYNIGION CYLLIDEBOL

Mae Cynnig y Gyllideb Flynyddol yn cael ei basio o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Am y cyfnod hwn o'r cyfrif cymeradwyodd Senedd Cymru Gynnig y Gyllideb Flynyddol 2019-20 (GEN-LD 11995) fel y'i diwygiwyd gan Gynnig y Gyllideb Atodol 2019-20 (GEN-LD 13046). Talwyd y symiau canlynol allan o'r Gronfa o dan awdurdod Cynigion y Gyllideb. Gweler hefyd Nodyn 12, sy'n rhoi manylion symiau a dynnwyd i lawr ac sydd heb eu gwario ar 31 Mawrth 2020.

	2019-20 £000	2018-19 £000
Llywodraeth Cymru	16,900,822	16,107,550
Senedd Cymru	53,250	50,375
Swyddfa Archwilio Cymru	7,810	6,338
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,864	4,378

Cyfanswm

16,966,746

16,168,641

Nodyn 10

CYFLOGAU, COSTAU CYSYLLTIEDIG A PHENSIYNAU 2019-20

	Senedd Cymru			Swyddfa Archwilio Cymru		Ombwdsmon	Cyfanswm £000
	Y Llywydd £000	Dirprwy Lywydd £000	Comisiynydd Safonau* £000	Archwilydd Cyffredinol Cymru £000	Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru* £000	Yr Ombwdsmon Gwasanaethu Cyhoeddus £000	
Cyflogau	111	90	28	148	30	151	558
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol	14	11	3	19	3	20	70
Costau Pensiwn	22	18	0	44	0	46	130
Ardoll Brentisiaethau	1	0	0	1	0	1	3
CYFANSWM	148	119	31**	212	33	218	761

*Mae'r cyflogau uchod ar gyfer y Comisiynydd Safonau a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys ad-dalu treuliau sy'n codi tâl uniongyrchol ar y gronfa. Yn ystod 2019-20 gwnaed newidiadau i'r dull o brosesu treuliau Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd yn golygu ei fod yn dod yn dâl uniongyrchol ar y gronfa. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghyfrifon cyhoeddus Swyddfa Archwilio Cymru.

**Mae'r taliadau hyn yn adlewyrchu newid yn y penodiad yn 2019-20. O ran y Comisiynydd Safonau, balans y taliadau ar gyfer y ddau ddeiliad swydd yn ystod y flwyddyn yw £17,900 a £12,898.

CYFLOGAU, COSTAU CYSYLLTIEDIG A PHENSIYNAU 2018-19

	Cynulliad Cenedlaethol Cymru			Swyddfa Archwilio Cymru		Ombwdsmon	Cyfanswm £000
	Y Llywydd £000	Dirprwy Lywydd £000	Comisiynydd Safonau £000	Archwilydd Cyffredinol Cymru £000	Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru £000	Yr Ombwdsmon Gwasanaethu Cyhoeddus £000	
Cyflogau	110	89	28*	157*	25	150	559
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol	14	11	3	20	2	20	70
Costau Pensiwn	22	18	0	32	0	37	110
Ardoll Brentisiaethau	1	0	0	1	0	1	3

CYFANSWM	147	118	31	211	27	208	742
----------	-----	-----	----	-----	----	-----	-----

*Mae'r taliadau hyn yn adlewyrchu penodiad newydd yn 2018-29. O ran y Comisiynydd Safonau, balans y taliadau ar gyfer dau ddeiliad y swydd yn ystod y flwyddyn yw £23,688 a £4,272. O ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, balans y taliadau ar gyfer dau ddeiliad y swydd yn ystod y flwyddyn yw £58,227 a £98,866.

Nodyn 11

TREULIAU SWYDDOGION CANLYNIADAU YN ETHOLIADAU'R CYNULLIAD

Ar 31 Mawrth 2019 roedd Llywodraeth Cymru heb dynnu £594,741 i dalu treuliau ac ildio taliadau dros ben o £48,892, fel y nodir yn Nodyn 10 o Gyfrifon 2018-19. Cafodd y rhain eu talu yn 2019-20. Ni chafwyd unrhyw daliadau ychwanegol yn 2019-20.

Nodyn 12

SYMIAU A DYNNEWYD A HEB EU GWARIO A SWM DROS BEN INCWM DROS SYMIAU A AWDURDODWYD

Isod, nodir y symiau a dynnwyd i lawr ac a dderbyniwyd gan gyrff a gwmpesir gan y Gronfa, ond na chafodd eu gwario ar 31 Mawrth 2020, a derbyniadau sydd uwchlaw'r incwm a awdurdodwyd sy'n ad-daladwy i'r Gronfa:

Llywodraeth Cymru

Yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, nodwyd y symiau canlynol sy'n ddyledus i'r Gronfa:

Y cyllid dros ben a dynnwyd ond na chafodd ei wario - £32,320,779
Derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd – £dim

Y cyllid dros ben a dynnwyd ond na chafodd ei wario ar gyfer 2018-19 oedd £dim ac roedd y derbyniadau ar gyfer symiau uwchlaw'r incwm yn £dim.

Comisiwn y Senedd

Yng Nghyfrif Adnoddau Comisiwn y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, nodwyd y symiau canlynol sy'n ddyledus i'r Gronfa:

Y cyllid dros ben a dynnwyd ond na chafodd ei wario - £60,000
Derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd – £dim

Ar gyfer 2018-19, ni chafodd y cyllid dros ben o £292,000 a dynnwyd ond na chafodd ei wario, a'r derbyniadau a oedd uwchlaw'r incwm o £ddim, eu had-dalu i'r Gronfa ond bernir eu bod wedi'u tynnu yn erbyn grantiau awdurdodedig 2019-20.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Yng nghyfrif blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, nodwyd y symiau canlynol sy'n ddyledus i'r Gronfa:

Y cyllid dros ben a dynnwyd ond na chafodd ei wario - £48,000
Derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd – £dim

Ar gyfer 2018-19, ni chafodd y cyllid dros ben o £20,000 a dynnwyd ond na chafodd ei wario, a'r derbyniadau a oedd uwchlaw'r incwm o £ddim, eu had-dalu i'r Gronfa, ond bernir eu bod wedi'u tynnu yn erbyn grantiau awdurdodedig 2019-20.

Swyddfa Archwilio Cymru

Yng nghyfrif blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, adroddwyd y symiau canlynol sy'n ddyledus i'r Gronfa:

Y cyllid dros ben a dynnwyd ond na wariwyd - £1,573,000
Derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd – £31,000

Ar gyfer 2018-19, ni chafodd y cyllid dros ben o £1,608,000 a dynnwyd ond na wariwyd, a'r derbyniadau a oedd yn uwch nag incwm o £168,000, eu had-dalu i'r Gronfa ond bernir eu bod wedi'u tynnu yn erbyn grantiau awdurdodedig 2019-20.

Nodyn 13

BALANS LLYWODRAETH CYMRU

Mae'r cyfrifon ar gyfer y Gronfa hon yn cael eu paratoi ar sail arian parod o dan Adran 132 (1) o'r Ddeddf. Pe bai'r cyfrif hwn ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru yn cael ei baratoi ar sail adnoddau, byddai'r fantolen yn cynnwys dyledwr i Lywodraeth Cymru fel y nodir isod, gan adlewyrchu trosglwyddiadau sy'n deillio o weithgarwch 2019-20 a oedd yn dal heb ei wneud ar 31 Mawrth 2020.

	2019-20	2018-19
	£000	£000
Cyllid a dynnwyd ond heb ei wario	32,321	-
Derbyniadau Dynodedig	3,239	16,095
Treuliau swyddogion canlyniadau heb eu tynnu i lawr	-	(595)
Tâl-dros-ben treuliau swyddogion canlyniadau a dynnwyd	-	49
CYFANSWM	35,560	15,549

Nodyn 14

AWDURDODWYD I'W CYHOEDDI

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar yr un diwrnod ag y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn llofnodi'r dystysgrif archwilio.

Atodiad

WELSH CONSOLIDATED FUND

ACCOUNTS DIRECTION GIVEN BY HM TREASURY IN ACCORDANCE WITH SECTIONS 132(2) AND (3) OF THE GOVERNMENT OF WALES ACT 2006

1. The account of payments into and out of the Welsh Consolidated Fund for the financial year ended 31 March 2008 and subsequent financial years shall properly present those payments.

2. When preparing the account of the payments into and out of the Welsh Consolidated Fund for the financial year ended 31 March 2008 and subsequent financial years the Welsh Ministers shall comply with cash (receipts and payments) accounting principles and the account will contain the following:
 - A Foreword (explaining the background and scope of the account);
 - A Statement of Accounting Officer's Responsibilities;
 - A Statement on Internal Control;
 - A Receipts and Payments Account; and
 - Such notes as are required to ensure a proper understanding of the account, including an explanation of the movement on financial year-end balances.

3. This direction shall be reproduced as an appendix to the statement of account.



DAVID WATKINS
Head of the Financial Reporting Policy Team, HM Treasury

04 January 2007